PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

DYDD MERCHER, 3 MAI 2023

PRESENNOL Cynghorydd K.V. Broom (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
D. Nicholas

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	A. Evans	H.A.L. Evans	D. Jones
M.J.A. Lewis	A. Leyshon	K. Madge	M. Thomas

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd D. Price - Aelod Cabinet - Arweinydd;
Y Cynghorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau;

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol;
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
T. Thomas, Pen-swyddog Datblygu Busnesau;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau.
Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, ac o bell: 10.00 yb - 11.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Davies, R. James ac A.G. Morgan.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
T. Davies*	5 - Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol, Adran y Prif Weithredwr - Rheoli Pobl;	Partner ei fab yn gweithio yn yr Adran Addysg a Phlant;
A. Evans	5 - Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol, Adran y Prif Weithredwr - Y Gyfraith a Gweinyddiaeth	Ei fam yn gweithio i'r adain Gwasanaethau Democrataidd;
M.J.A. Lewis*	5 - Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol, Adran y Prif Weithredwr - Rheoli Pobl;	Ei nith yn gweithio yn yr Adran Addysg a Phlant;
K. Madge	5 - Cynlluniau Cyflawni Is-	Ei ferch yn gweithio i'r

	adrannol, Adran y Prif Weithredwr - Rheoli Pobl;	Gwasanaethau Cymdeithasol;
D. Nicholas	5 - Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol, Adran y Prif Weithredwr - Rheoli Pobl;	Ei ferch yn gweithio yn yr Adran Gynllunio

[*Gwnaeth y datganiad yn union cyn i'r eitem gael ei thrafod.]

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

4. CYNLLUN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL AR GYFER 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

Atgoffwyd yr aelodau, yn ystod y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd o ran Blaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor y cafwyd consensws, yn dilyn y pryderon a fynegwyd yn ddiweddar, y byddai'n briodol i'r Pwyllgor yn y lle cyntaf i gael adroddiad a chyflwyniad ar weithrediad canolfannau cyswllt y Cyngor mewn sesiwn anffurfiol

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

4.1 gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2023/24;

4.2 bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad a chyflwyniad ar weithrediad canolfannau cyswllt y Cyngor mewn sesiwn anffurfiol.

5. CYNLLUNIAU DARPARU GWASANAETH ADRAN Y PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd yr Arweinydd, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor, Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Adran y Prif Weithredwr ar gyfer 2023-24 a oedd yn cynnwys:

- TGCh a Pholisi Corfforaethol;
- Rheoli Pobl;
- Y Gyfraith a Gweinyddiaeth;
- Y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil;
- Gwasanaethau Marchnata a'r Cyfryngau/Cyfieithu;
- Cymorth Busnes a'r Cabinet.

Roedd y cynlluniau yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau yn eu cymryd er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant, blaenoriaethau thematig a blaenoriaethau gwasanaeth y Cyngor.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad/cynlluniau:

TGCh a Pholisi Corfforaethol

- Sicrhawyd yr aelodau fod seiberddiogelwch yn cael ei ystyried yn ddifrifol iawn ac roedd yr Awdurdod yn cymryd dull amlweddog a chadarn o ran atal ymosodiadau seiber;
- Mewn ymateb i sylw dywedodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol yr ymatebwyd i dros 90% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a hynny o fewn 20 diwrnod gwaith;
- Nodwyd y byddai'r system gefn swyddfa newydd a'r Porth Ar-lein ar gyfer mwy o Fynediad i Bobl a Hunanwasanaeth yn galluogi aelodau'r cyhoedd i dderbyn adborth ar faterion/ceisiadau a gyflwynwyd ganddynt;
- Mewn ymateb i ymholiad dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi gydag aelodaeth wleidyddol gytbwys. Dywedodd y gallai adroddiadau i'r Panel fod ar gael i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol pe bai'n dymuno. Diolchodd i bob aelod am eu mewnbwn i'r agenda trechu tlodi;

-

Rheoli Pobl

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K Madge wedi datgan buddiant yn y Cynllun Cyflawni Is-adrannol yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei ystyried.

Roedd y Cynghorydd T. Davies wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Cyflawni Is-adrannol gan fod partner ei fab yn gweithio yn yr Adran Addysg a Phlant ond arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei ystyried.

Roedd y Cynghorydd M.J.A. Lewis wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol hwn gan fod ei nith yn gweithio yn yr Adran Addysg a Phlant ond arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei ystyried.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y galw cynyddol ar y tîm Iechyd Galwedigaethol fe wnaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) gydnabod bod atgyfeiriadau, yn enwedig at y gwasanaeth llesiant, wedi cynyddu o ganlyniad i Covid. Roedd atgyfeiriadau a oedd yn deillio o faterion covid hir yn parhau'n isel;
- Cydnabuwyd bod targed Mehefin 2023 i 'adolygu polisïau Adnoddau Dynol perthnasol i gefnogi datblygiad gweithlu mwy hyblyg a deinamig' yn uchelgeisiol ond roedd rheolwyr yn cael hyfforddiant pwrpasol yn enwedig o ran rheoli gweithlu 'hybrid' wedi'r pandemig a oedd yn gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref. Y gobaith oedd y byddai hyblygrwydd o fudd i unigolion a'r Awdurdod;
- Mewn ymateb i gwestiwn fe ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) ei fod wedi gofyn i'r tîm TIC (Trawsnewid i Wneud Cynnydd) adolygu ei raglen yn benodol gyda'r nod o gryfhau'r gwasanaeth. Mynegwyd y gobaith y gallai tîm TIC sydd ag adnoddau priodol gynhyrchu incwm o bosib;
- dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl), mewn ymateb i sylw, y byddai mwy o ddata yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Cyflawni o ran prentisiaethau;

-

Y Gyfraith a Gweinyddiaeth

[SYLWER: Gan fod y Cynghorydd A. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon.]

- Cyfeiriwyd at y gofyniad cyfreithiol i ganiatáu i aelodau fynychu naill ai'n gorfforol neu o bell (cyfarfodydd aml-leoliad)' a mynegwyd pryder ynghylch yr effaith niweidiol yr oedd hyn yn ei chael ar y broses ddemocrataidd gyda rhai aelodau heb gwrdd â'i gilydd wyneb yn wyneb. Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i bob aelod o leiaf fynychu'r Cyngor llawn yn bersonol. Derbyniodd yr Arweinydd fod hwn yn bwynt dilys ond atgoffodd yr aelodau fod rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnig cyfarfodydd hybrid, oedd â'u manteision a'u hanfanteision, i Gynghorwyr;
- Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried adroddiad yn fuan ar welliannau posibl i broses ymholiadau'r Cynghorwyr;
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) y byddai dadansoddiad o'r gweithlu presennol yn nodi gofynion, sgiliau a chymwyseddau gweithlu'r dyfodol a byddai hefyd yn canolbwyntio ar reoli olyniaeth;

Y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod cyllideb 2023-24 ar gyfer 'Etholiadau-Cyngor Sir' yn uchel ar gyfer blwyddyn lle na fyddai etholiadau. Cytunodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol i ganfod y rheswm a dosbarthu'r manylion i'r aelodau;
- Mynegwyd pryder ynghylch gofynion newydd o ran prawf adnabod pleidleiswyr yng ngorsafoedd pleidleisio Seneddol ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i roi cyhoeddusrwydd i'r mater cyn yr etholiadau nesaf. Roedd yr Arweinydd yn cefnogi'r pryderon a dywedodd y byddai'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau gweithio ar sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gofynion;

Gwasanaethau Marchnata a'r Cyfryngau/Cyfieithu

- Mewn ymateb i ymholiad dywedodd yr Arweinydd y byddai creu pecyn cymorth digidol i hyrwyddo digwyddiadau/gwyliau lleol ar draws y Sir yn cynnwys ardaloedd gwledig ac yn darparu cysylltiadau â chyrff ariannu;
- Mewn ymateb i bryder dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ymwybodol iawn o'r angen i wella'r amser a gymerir i ateb galwadau yn y Canolfannau Cyswllt a bod adnoddau ychwanegol wedi bod ar gael dros y misoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD yn UNFRYDOL y dylid derbyn Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Adran y Prif Weithredwr.

6. CYNLLUNIAU DARPARU GWASANAETH ADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor eu hystyried a oedd yn cynnwys:

- Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol 2023-24;
- Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Ariannol 2023-24.

Roedd y cynlluniau yn pennu'r camau a'r mesurau strategol y byddai'r gwasanaethau yn eu cymryd er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant, blaenoriaethau thematig a blaenoriaethau gwasanaeth y Cyngor.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad/cynlluniau:

Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol 2023-24

- Mewn ymateb i gwestiwn eglurodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod 'Trethi Lleol' o ran Cyllideb 2023/2024 yn ymwneud yn benodol â chostau staffio'r dreth gyngor - y tîm adennill ar gyfer y dreth gyngor [Ardrethi Annomestig Cenedlaethol] a staff gweinyddu'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Er y derbyniwyd rhywfaint o incwm am gostau gweinyddu drwy gymhorthdal ni oedd hyn yn cynnwys yr holl gostau. Roedd yr incwm a gafwyd hefyd yn adlewyrchu'r ffioedd a gafodd eu hadennill yn ar ôl i ddyledion gael eu had-dalu.

PENDERFYNWYD yn UNFRYDOL y dylid derbyn Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

8. COFNODION - 31AIN MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 31 Mawrth 2023.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**